Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 19 Chwefror 2014

10.00 – 2.40

Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Caerfyrddin

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Yr Athro R Merfyn Jones (Cadeirydd) Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Andrew Green, Cyfarwyddwr Annibynnol Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Stephanie Lloyd, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr (tan 2.30) Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Dr Catrin Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol
Sylwedyddion:	Jacob Ellis, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC Cymru Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Catherine Rees, Ysgrifennydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Nia Brown, Swyddog Datblygu, Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Hefyd yn Bresennol:	Meirion Prys Jones, Cadeirydd Pwyllgor Penodiadau'r Coleg (Eitem 5 yn unig)
Ymddiheuriadau:	Rachel Cable, sylwedydd AUC Kimberley Meringolo, sylwedydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Sylwadau agoriadol ac ymddiheuriadau	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau i swyddfeydd y Coleg yng Nghaerfyrddin. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. 2.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau heblaw'r rhai sydd eisoes wedi eu cofnodi.		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 27 Tachwedd 2013	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2013.		
4. Gohebiaeth	4.1 Derbyniwyd gohebiaeth gan Wasg Prifysgol Cymru yn gofyn a fyddai'r Coleg yn ystyried cyfrannu at y gost o gyhoeddi dau lyfr a luniwyd gan ddarlithwyr sydd wedi eu noddi gan y Coleg. Er bod yr aelodau'n cefnogi cyhoeddi gwaith gan academyddion a noddir gan y Coleg cytunwyd bod angen ystyried yn ofalus sut i weithredu ar hyn o bryd. Cytunwyd i gyfeirio'r mater at sylw'r Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi. 4.2 Derbyniwyd gohebiaeth gan Ysgol Gyfun Rhydywaun ynghylch toriadau mewn trafnidiaeth ar gyfer myfyrwyr. Nodwyd bod y	Cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi	Ar unwaith

	Coleg wedi gohebu â Phrif Swyddog Addysg Merthyr yn nodi pryder am y sefyllfa ond ni dderbyniwyd ymateb hyd yma.		
5. Materion Cyfansoddiadol	<u>Trafodaeth Gaeëdig</u> 5.1 Ar gyfer yr eitem hon gadawodd Swyddogion y Coleg a'r holl sylwedyddion, Andrew Green, ar gyfer rhan (i) a Geraint James ar gyfer rhan (ii) yr ystafell er mwyn i'r Cyfarwyddwyr ystyried y mater. Yn bresennol ar gyfer y drafodaeth oedd y Cyfarwyddwyr, sef yr Athro R Merfyn Jones, yr Athro Iwan Davies, Jacqui Hare, yr Athro Jerry Hunter, Dr Hefin Jones, Stephanie Lloyd, Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dr Catrin Thomas, yr Athro Hywel Thomas, Ieuan Wyn a Linda Wyn. Hefyd yn bresennol oedd Ysgrifennydd y Coleg, Catherine Rees. Ymunodd Meirion Prys Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau â'r cyfarfod. 5.2 Cafwyd cyflwyniad gan Meirion Prys Jones ar (i) argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau ar gyfer penodi Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar gyfer 2014-17 a (ii) penodi / ail-benodi Cyfarwyddwr Annibynnol ar gyfer 2014-17. Gadawodd Meirion Prys Jones y cyfarfod yn syth ar ôl ei gyflwyniad. 5.3 Penderfyniad y Cyfarwyddwyr oedd penodi Andrew Green fel Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar gyfer 2014-17 ac ail-benodi Geraint James fel Cyfarwyddwr Annibynnol ar gyfer 2014-17. 5.4 Ar y pwynt hwn dychwelodd gweddill y swyddogion a sylwedyddion i'r cyfarfod. 5.5 Derbyniwyd a chymeradwywyd amserlen penodi Cyfarwyddwyr Annibynnol.		
6. Data a thargedau	6.1 Cafwyd cyflwyniad gan y Cofrestrydd ar y targedau cenedlaethol ar gyfer cynyddu niferoedd myfyrwyr sydd yn astudio o leiaf ran		

	o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn blwyddyn academaidd 2015/16. 6.2 Yn y cyflwyniad nodwyd fod 4,440 o fyfyrwyr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2011/12 gyda'r mwyafrif yn astudio ym meysydd Addysg, Ieithoedd (Cymraeg yn bennaf), Nyrsio a Diwydiannau Creadigol. Esboniwyd bod canran sylweddol o'r myfyrwyr mewn meysydd (er enghraifft Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon neu ddarpariaeth ran-amser benodol iawn a gynigir gan un sefydliad) lle mae'n anodd i'r Coleg ddylanwadu ar y niferoedd. O ganlyniad rhaid canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae potensial i'r Coleg ddylanwadu. 6.3 Er mwyn cyrraedd y targed cenedlaethol rhaid sicrhau cynnydd o 1,000 o fyfyrwyr erbyn 2015/16. Ar hyn o bryd mae'r cynlluniau pynciol yn awgrymu y gellid cynyddu o ryw 700 ac felly bydd yn rhaid canfod 300 ychwanegol eto. 6.3 Nododd y Cyfarwyddwr fod y Swyddogion a'r Bwrdd Academaidd wedi trafod y targedau a bod sicrhau cynnydd digonol yn heriol. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwyr fod hyn yn gyfrifoldeb ar y gyfundrefn addysg gyfan ac nid yn unig yn gyfrifoldeb y Coleg, a bod angen cyfleu hyn i Lywodraeth Cymru.		
(BC/14/01/16b)	6.4 Cyflwynodd Dr Hefin Jones gynnig a oedd wedi ei fabwysiadu gan y Bwrdd Academaidd a oedd yn adlewyrchu ar ymdeimlad yr aelodau fod angen i'r prifysgolion fod yn fwy rhagweithiol wrth recriwtio myfyrwyr i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Argymhellwyd: a. sefydlu gweithdrefn er mwyn adnabod sgiliau iaith myfyrwyr cyn iddynt gyrraedd y brifysgol a'u targedu wrth iddynt ddechrau yn y brifysgol b. mabwysiadu polisi i osod pob myfyriwr Cymraeg ei iaith mewn grŵp tiwtorial Cymraeg c. cofrestru myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn awtomatig ar fodiwlau		

	cyfrwng Cymraeg d. caniatáu i fyfyrwyr optio allan o'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. 6.5 Nododd rhai aelodau bod y math yma o drefn yn bodoli'n barod mewn adrannau unigol. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y byddai'r Coleg yn cyhoeddi cylchlythyr yn gwahodd y sefydliadau i weithredu trefn o'r fath.	Cyhoeddi Cylchlythyr	Tymor yr Haf 2014
7. Cynllun Strategol y Coleg **(BC/14/01/07)**	7.1 Cyflwynwyd crynodeb o ddrafft o Gynllun Strategol newydd y Coleg ar gyfer 2014/15 hyd 2018/19 gan y Prif Weithredwr. 7.2 Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd trafodaeth lawn ac eang ar y cynllun drafft a nodwyd nifer o awgrymiadau a sylwadau i'w hymgorffori yn y drafft nesaf.	Paratoi drafft terfynol	Erbyn 30 Ebrill 2014
8. Adroddiad y Prif Weithredwr **(BC/14/01/08)**	8.1 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr. 8.2 Diweddariadau ar faterion perthnasol yn codi o gyfarfod y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 27 Tachwedd 2013: • <u>Gwerthusiad o ganlyniadau gweithgareddau'r Coleg.</u> Nododd Dr Cliona O'Neill, CCAUC, y bydd yr ymgynghorwyr a benodwyd yn cyflwyno eu canfyddiadau cychwynnol i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 17/18 Mehefin 2014. • <u>Perthynas y Coleg â'r sefydliadau addysg uwch</u>. Nodwyd y gohiriwyd y cyfarfod blynyddol rhwng y Coleg ac Addysg Uwch Cymru tan benodiad Cadeirydd newydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Rhoddir diweddariad yng nghyfarfod 18 Mehefin 2014. • <u>Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon</u>. Adroddwyd bod yr adroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, drwy CCAUC ar ddiwedd Gorffennaf 2013, wedi'u dosbarthu i aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, Bwrdd Academaidd a'r Panel Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon.	Cyflwyno diweddariad	18 Mehefin 2014

	• Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng y Coleg a Cholegau Cymru. Adroddwyd y bu chwe chais i gynnal prosiectau peilot yn y sefydliadau addysg bellach a chytunwyd i gyllido pump ohonynt. 8.3 Datblygiadau cyfredol eraill: • Cynllun Strategol. Yn dilyn y drafodaeth gychwynnol a gafwyd yng nghyfarfod y bore adroddwyd mai'r bwriad yw cyflwyno'r fersiwn terfynol yng nghyfarfod y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 18 Mehefin 2014, yn dilyn ymgynghoriad â'r sefydliadau addysg uwch a phartneriaid eraill. • Cynllunio Academaidd a Niferoedd Myfyrwyr. Yn dilyn cyflwyniad y Cofrestrydd yng nghyfarfod y bore ar y sefyllfa heriol ynghylch targedau nodwyd y bwriad o gynnal seminar ar gyfer aelodau'r Bwrdd o fewn y misoedd nesaf. • Trefniadau Dyfarnu Grantiau. Nodwyd a chymeradwywyd y trefniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd 2014/15. • Adolygiadau Cynllun Staffio. Cynhelir cyfarfodydd unigol gyda'r sefydliadau, i ddechrau ystyried cynaladwyedd swyddi academaidd a noddir gan y Coleg, ym Mawrth/Ebrill 2014. • Cynhadledd Ryngwladol y Coleg. Nodwyd fod rhaglen lawn ar waith ar gyfer y Gynhadledd a gynhelir ar 1-3 Gorffennaf 2014. 8.4 Risgiau a chyfleoedd: • Adroddwyd nad oes newidiadau sylfaenol i Gofrestr Risg y Coleg ers y cyfarfod diwethaf. • Nodwyd un risg lefel uchel newydd, sef na fyddai modd i'r Coleg na'r sefydliadau cynnal buddsoddiad yn y swyddi academaidd wedi diwedd y tymor cyllido cychwynnol o bum mlynedd. 8.5 Adroddiadau ar weithgareddau (Tachwedd 2013 – Chwefror 2014):		

	• Derbyniwyd rhestr, er gwybodaeth, o weithgareddau a chyfarfodydd a fynychwyd gan y Prif Weithredwr yn ystod y cyfnod 16 Tachwedd 2013 hyd 6 Chwefror 2014.		
9. Adroddiadau gan Gyfarwyddwyr	9.1 Nid oedd adroddiadau gan y Cyfarwyddwyr.		
10. Strategaeth Gyfathrebu	10.1 Cafwyd cyflwyniad gan Elin Williams, Rheolwr Cyfathrebu'r Coleg ar Strategaeth Gyfathrebu'r Coleg. 10.2 Eglurwyd ei bod wedi adolygu strategaeth gyfathrebu'r Coleg i godi ymwybyddiaeth ymysg y grŵp targed, rhoi proffil uwch i'r Coleg a gwella cyfathrebu gyda staff a myfyrwyr; a bod creu amserlen weithredu yn yr arfaeth. 10.3 Croesawyd y cyflwyniad gan y Cyfarwyddwyr ac argymhellwyd y gellid ceisio targedu ehangu mynediad, defnyddio llysgenhadon myfyrwyr presennol yn hytrach na chyn-fyfyrwyr yn unig ac ystyried cyrraedd croestoriad y gymdeithas gan gynnwys unigolion ag anabledd. Awgrymwyd y dylid canolbwyntio ar lwyddiannau a chyrraedd cynulleidfaoedd ehangach trwy'r papurau bro a'r wasg genedlaethol.		
11. Cynllun Hyrwyddo **(BC/14/01/11)**	11.1 Cyflwynwyd papur ar brosiectau peilot rhanbarthol i hyrwyddo dilyniant addysg cyfrwng Cymraeg gan y Prif Weithredwr. Amlinellwyd y cefndir a'r cyd-destun, gan adnabod tair ardal bosibl ar gyfer prosiectau peilot, sef Gwynedd, Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf. Byddai'r prosiectau hyn yn ystyried y ffactotrau sydd yn dylanwadu ar benderfyniadau myfyrwyr yn y sector uwchradd o ran parhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg neu beidio. 11.2 Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y gallai'r Coleg fynd ati i ddechrau	Dechrau trafodaethau ag	Tymor yr Haf

	trafodaethau gydag ysgolion sy'n barod i fod yn rhan o'r prosiect. Yn ogystal cytunwyd y byddai cyllid ar gyfer y cynllun hwn yn cael ei gynnwys yng Nghyllideb Ddrafft y Coleg 2014/15.	ysgolion	2014
12. Cynllun Gweithredu 2013/14	12.1 Nodwyd nad oedd diweddariadau sylweddol i'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2013/14 gan fod y mwyafrif o'r targedau eisoes wedi'u cyflawni. Cyflwynir fersiwn terfynol yn y cyfarfod nesaf.	Cyflwyno cynllun terfynol	18 Mehefin 2014
13. Materion Staffio	13.1 Cafwyd adroddiad llafar gan Ysgrifennydd y Coleg ar y Pwyllgor Staffio a gyfarfu'r diwrnod cynt (18 Chwefror 2014) a materion staffio eraill. 13.2 Nodwyd fod Panel Staffio (a) wedi gwerthuso swydd ddisgrifiad dau aelod o staff a Phanel Staffio (b) wedi cysoni swydd ddisgrifiad swydd rheolwr. 13.3 Nodwyd fod y Pwyllgor Staffio wedi mabwysiadu cylch gorchwyl newydd a gylchredir i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr erbyn cyfarfod 18 Mehefin 2014. 13.4 Nodwyd y bwriad i gofrestru ar gyfer y safon Buddsoddwyr mewn Pobl ym mis Mai 2014. 13.5 Cydnabuwyd ymroddiad staff y Coleg a gwerthfawrogwyd yn arbennig y gwaith o drefnu'r Cynulliad Blynyddol a gyfarfu'r noson cynt (18 Chwefror 2014).	Cylch Gorchwyl i'w gylchredeg	18 Mehefin 2014
14. Materion Cyllid **(BC/14/01/14)**	14.1 Cyflwynwyd Cyllideb y Coleg ar gyfer 2014/15 gan y Cofrestrydd. Eglurwyd bod strwythur gwahanol i'r gyllideb gan gynnwys newid i'r penawdau ac is-godau sy'n adlewyrchu'n well y gwaith a wneir gan y Coleg. 14.3 Cymeradwywyd y Gyllideb ddrafft gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr a	Cyllideb derfynol	18 Mehefin 2014

	chytunwyd i'w cyflwyno ar ffurf derfynol yng nghyfarfod yr haf.		
15. Pwyllgor Archwilio **(BC/13/03/16)**	15.1 Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2013. 15.2 Cafwyd adroddiad llafar gan Geraint James, Cadeirydd y Pwyllgor ar y cyfarfod a gyfarfu'r diwrnod cynt (18 Chwefror) a oedd yn cynnwys adroddiad gan yr archwilwyr mewnol ar ymwneud y darlithwyr a'u rôl yn gweithredu amcanion y Coleg. 15.3 Adroddwyd hefyd ar gyfweliadau'r archwilwyr ac argymhelliad i'r Llys a gyfarfu hefyd y diwrnod cynt i benodi Pricewaterhouse Coopers fel Archwilwyr Allanol ar gyfer 2014-17 a phenodi KTS Owens Thomas fel Archwilwyr Mewnol ar gyfer 2014-16. 15.4 Nodwyd y byddai'r archwilwyr mewnol yn paratoi adroddiad ar drefniadau adnoddau dynol y Coleg erbyn y cyfarfod nesaf.		
16. Bwrdd Academaidd **(BC/14/01/17a)**	16.1 Ystyriwyd argymhellion y panel dyfarnu ar geisiadau i'r Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil 2014/15 a gyflwynwyd gan Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd. Cafwyd 24 cais ac argymhellwyd dyfarnu 10 ysgoloriaeth a nodwyd fod y degfed yn amodol ar ymgeisydd. Derbyniwyd yr argymhellion. 16.2 Cafwyd adroddiad llafar gan y Deon, Dr Hefin Jones, ar gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2014. 16.3 Adroddodd y Deon ei fod wedi ymweld â changhennau Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol De Cymru yn yr Atrium. 16.4 Nodwyd fod cynrychiolydd o bob sefydliad yn ei dro yn rhoi cyflwyniad i'r Bwrdd Academaidd ac yn sgil yr arfer da hwn gofynnwyd i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr fabwysiadu'r un arfer. 16.5 Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa mewn perthynas â llunio	Bwrdd Cyfarwyddwyr i dderbyn cyflwyniad gan y sefydliad sy'n lletya'r cyfarfod nesaf	Cyfarfod nesaf a parhaol

	cynlluniau pynciol ar draws amrediad o feysydd a nodwyd bod trafod manwl cyn derbyn y cynlluniau. Eglurwyd mai'r broses ar ôl cymeradwyo'r cynlluniau fyddai eu cyfieithu a'u gosod ar y wefan, eu hadolygu yn y paneli'n flynyddol ac ail-gyflwyno i'r Bwrdd Academaidd bob tair blynedd. 16.6 Nodwyd yn ogystal ddatblygiadau ym maes Astudiaethau Cyfieithu, gwaith y Pwyllgor Cydweithio Academaidd ac adolygiadau i'r Ysgoloriaethau Ymchwil a'r Cynllun Staffio. 16.7 Yn deillio o drafodaeth am ehangu mynediad yn y Bwrdd Academaidd gofynnwyd i'r Cyfarwyddwyr ystyried cymeradwyo creu is-bwyllgor, a fyddai'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd, i ystyried strategaeth y Coleg ar gyfer Ehangu Mynediad, o dan arweiniad Delyth Murphy. Cytunodd y Cyfarwyddwyr ar yr argymhelliad. 16.8 Nodwyd y trafodwyd sefyllfa neuaddau myfyrwyr Cymraeg yn y Bwrdd Academaidd, yn ogystal â thoriadau mewn cludiant ar gyfer disgyblion ysgol yn sir Merthyr a thoriadau yng nghyllideb CILT Cymru. 16.9 Diolchwyd i'r Deon am ei gyflwyniad cynhwysfawr.	Sefydlu is-bwyllgor Ehangu Mynediad	Tymor yr Haf 2014
17. Materion yn codi	17.1 <u>Eitem 11.2 Tasglu Adnoddau Digidol Ar-lein Llywodraeth Cymru.</u> Eglurodd Andrew Green nad oedd yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddi gan y Llywodraeth. 17.2 <u>Eitem 13.3 Asiantaeth Cyflogaeth Cymraeg.</u> Adroddwyd y codwyd y mater gyda Chomisiynydd y Gymraeg.		
18. UFA	18.1 Adroddwyd bod rhieni Eilir Hedd Morgan, darlithydd o dan nawdd y Coleg a fu farw mewn damwain yn 2013, wedi cyfrannu £1,000 tuag at y Gronfa Goffa. Cytunwyd y dylai'r Coleg gyfrannu swm cyfatebol. Nodwyd diolch i staff y Coleg am groesawu Mr a Mrs		

	Morgan i'r Cynulliad ar achlysur sefydlu'r wobr y noson cynt. 18.2 Cronfa Genedlaethol William Salesbury. Nodwyd diolch i'r ymddiriedolwyr am eu harweiniad yn y gwaith o sefydlu'r Gronfa ac i'r cefnogwyr sydd eisoes wedi cyfrannu at y Gronfa. Dyfernir yr ysgoloriaeth gyntaf o £5,000 yn ystod Tymor y Gwanwyn. 18.3 Ar achlysur cyfarfod olaf yr Athro Merfyn Jones, diolchodd yr Is-Gadeirydd, Linda Wyn, iddo am ei waith yn sefydlu ac arwain gwaith y Coleg yn ystod y tair blynedd gyntaf. Cyfeiriwyd at ei Gadeiryddiaeth ddoeth, deg a chytbwys a dymunwyd yn dda iddo yn y dyfodol.		
19. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	19.1 Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 18 Mehefin 2014 ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd. 19.2 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith ac i staff y Coleg yng Nghaerfyrddin am eu cymorth am drefnu a lletya'r cyfarfod.		